

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r
A479 (Llys-wen, Powys)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2019

The A470 & A479 Trunk Roads
(Llyswen, Powys) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2019

Gwnaed 22 Hydref 2019

Made 22 October 2019

Yn dod i rym 28 Hydref 2019

Coming into force 28 October 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffyrdd yr A470 a'r A479, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 and A479 Trunk Roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited because of works proposed on or near the roads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A479 (Llys-wen, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 28 Hydref 2019.

1. The title of this Order is the A470 & A479 Trunk Roads (Llyswen, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2019 and it comes into force on 28 October 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 28 Hydref 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

"the trunk road(s)" ("*y gefnffordd/cefnffyrdd*") means the A470 Cardiff to Llangurig Trunk Road and the A479 Glanusk Park to Llyswen Trunk Road;

ystyr "y gefnffordd/cefnffyrdd" ("*the trunk road(s)*") yw Cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig a Cefnffordd yr A479 Parc Glan-wysg i Llys-wen.

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 09:00 hours on 28 October 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 Hydref 2019

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A470 yn Llys-wen, Powys, sy'n ymestyn o bwynt 175 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A479 hyd at bwynt 600 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4350.

Y darn o gefnffordd yr A479 sy'n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd ystad Llys Meillion hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A470.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

22 October 2019

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the A470 trunk road at Llyswen, Powys that extends from a point 175 metres south-west of the centre-point of its junction with the A479 to a point 600 metres north-west of the centre-point of its junction with the B4350.

The length of the A479 trunk road that extends from a point 35 metres north-west of the centre-point of its junction with Llys Meillion estate road to the centre-point of its junction with the A470.

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A470 A'R
A479 (LLYS-WEN, POWYS) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A470 a'r A479 yn Llys-wen, Powys, neu gerllaw iddynt.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau o'r A470 a'r A479 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Bydd y gwaith yn digwydd mewn cyfnodau ac ni ddisgwylir i hyd a lled cyfan y darnau o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn yr Atodlen fod ar gau i draffig drwy'r amser.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn dod i rym am 09:00 o'r gloch ar 28 Hydref 2019 ac yn parhau mewn grym, yn ôl yr angen, tan 19:00 o'r gloch ar 2 Tachwedd 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 & A479 TRUNK ROADS (LLYSWEN,
POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A470 and A479 trunk roads at Llysven, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A470 and A479 trunk roads specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described therein.

The works will take place in phases and it is not anticipated that the full extents of the lengths of the trunk roads described in the Schedule will be closed to traffic at all times.

It is expected that the temporary prohibition will come into force at 09:00 hours on 28 October 2019 and remain in force, as required, until 19:00 hours on 2 November 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

Hyd a Lled Eithaf y Darnau o'r Cefnffyrdd a fydd ar Gau

Y darn o gefnffordd yr A470 yn Llys-wen, Powys, sy'n ymestyn o bwynt 175 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A479 hyd at bwynt 600 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4350.

Y darn o gefnffordd yr A479 sy'n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd ystad Llys Meillion hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A470.

Llwybrau Eraill

Codir arwyddion priodol i nodi'r gwyriad ar gyfer y llwybrau eraill a byddant yn amrywio gan ddibynnu ar ben y daith a phryd y bydd darn penodol o'r A470/A479 a ddisgrifir uchod (h.y. ardal cyffordd yr A470/A479, ardal cyffordd yr A470/B4350 neu'r A479 yn unig) ar gau dros dro i draffig.

Bydd llwybrau eraill ar gael drwy fynd ar yr A470, yr A40, yr A483, yr A479 a'r A438, fel y bo'n briodol.

SCHEDULE

Furthest Extents of Closures

The length of the A470 trunk road at Llyswen, Powys that extends from a point 175 metres south-west of the centre-point of its junction with the A479 to a point 600 metres north-west of the centre-point of its junction with the B4350.

The length of the A479 trunk road that extends from a point 35 metres north-west of the centre-point of its junction with Llys Meillion estate road to the centre-point of its junction with the A470.

Alternative Routes

The alternative routes will be signed with appropriate diversion signs and will vary depending on destination and when a particular length of the A470/A479 described above (i.e. A470/A479 junction area, A470/B4350 junction area or A479 only) is temporarily closed to traffic.

Alternative routes will be available via the A470, A40, A483, A479 and A438, as appropriate.